Tribiwnlys Addysg Cymru
Adroddiad Blynyddol
2022 – 2023

Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

Cynnwys

Rhagair		1
Adran 1	Amdanom ni	3
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	30
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	31
Adran 5	Gwariant	32

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49113, ISBN digidol 978-1-83577-446-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Rhagair

Croeso.

Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC) ers imi gael fy mhenodi ym mis Mehefin 2023. Hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd, y Barnwr Walker, am ei gwasanaeth a'i hymroddiad i'r TAC dros gynifer o flynyddoedd. Fel hi, rwy'n ymrwymo i sicrhau bod y gyfraith yn parhau i gael ei gweithredu'n gyson gan y Tribiwnlys ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

Fel y gwelwch o'r ystadegau a ddarparwyd gennym eleni, mae nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdodau Lleol (ALlau) sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) plentyn o dan yr "hen" ddeddfwriaeth – Deddf Addysg 1996 – wedi gostwng, tra bo nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o dan y ddeddfwriaeth "newydd" – Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 – wedi cynyddu. Am y tro cyntaf, mae gan TAC fwy o apeliadau yn erbyn penderfyniadau am ADY na phenderfyniadau am AAA. Mae hyn yn union fel y byddech yn ei ddisgwyl wrth i blant a phobl ifanc gael eu trosglwyddo i'r fframwaith statudol newydd. Unwaith eto, fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae cyfanswm yr apeliadau sydd wedi'u cofrestru gan TAC wedi gostwng ychydig. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhieni, plant, pobl ifanc yn ogystal ag Ysgolion, Colegau ac Awdurdodau Lleol yn dal i ddysgu am y broses ADY newydd, a'r ffordd y dylai gael ei roi ar waith.

Achos pryder yw'r ffaith bod hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n bosibl y gellir egluro bod hyn wedi digwydd gan fod rhieni'n teimlo'n rhwystredig am nad yw eu plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Hynny yw, gan nad ydynt yn glir ynghylch y prosesau newydd ar gyfer ADY mewn ysgolion/colegau, maent yn chwilio am ffyrdd amgen o sicrhau eu bod yn gallu cael addysg briodol ar gyfer eu plant – a bod ganddynt yr addasiadau rhesymol cywir i sicrhau eu bod yn gallu dysgu. Wrth i brosesau newydd ADY gael eu deall yn well, ac wrth i arferion addysgu ddilyn y gyfraith, yna fe ddylai nifer yr hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd sefydlogi dros y blynyddoedd nesaf.

Wrth gwrs, bydd rhywfaint o ansicrwydd bob amser ynghylch dehongli a chymhwyso unrhyw gyfraith newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir y bydd unrhyw blentyn y canfuwyd yn flaenorol fod ganddo AAA, yn golygu bod gan y plentyn ADY hefyd – oni bai bod tystiolaeth benodol bod anghenion y plentyn wedi newid. Bydd y Tribiwnlys yn parhau i gyhoeddi penderfyniadau TAC. Er nad yw'r penderfyniadau hynny yn gosod cynsail, maent yn adlewyrchu sut mae'r gyfraith yn cael ei gweithredu.

Fel rhan o waith TAC rydym wedi cyflwyno dull newydd o ymdrin â sut mae achosion yn cael eu rheoli. Rhoddir cyfarwyddiadau erbyn hyn sy'n nodi'r amserlen ar gyfer apêl neu hawliad, gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad terfynol, pan fydd achos wedi'i gofrestru. Mae hyn yn caniatáu i bartïon gynllunio ar gyfer terfynau amser ac ar gyfer y gwrandawiad. Ac yn ychwanegol at hynny, mae'n sicrhau bod un o amcanion pennaf TAC, sef i benderfynu ar achosion yn deg, yn gyfiawn ac yn amserol yn cael ei gynnal.

Mae gwrandawiadau TAC yn parhau i gael eu cynnal trwy gynhadledd fideo oni bai bod parti yn gofyn am wrandawiad personol. Mae hyn mewn ymateb i adborth gan rieni, plant, pobl ifanc ac awdurdodau lleol fod honno'n ffordd effeithlon ac effeithiol iddyn nhw a'u tystion allu cymryd rhan mewn achos. Inni yn TAC, mae croesawu'r nifer cynyddol o achosion drwy gynadleddau fideo yn helpu i sicrhau bod rhai o'n plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed yn gallu manteisio ar y system gyfiawnder.

Mae TAC yn benderfynol o sicrhau bod proses y Tribiwnlys yn parhau i fod mor hyblyg ag sydd angen iddi fod ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'r ffaith bod proses y Tribiwnlys a'r gwrandawiad terfynol yn gallu cael eu cynnal yn Gymraeg yn unig neu yn Gymraeg a Saesneg yn golygu y gallwn weithio mewn ffordd sy'n bodloni anghenion cyfathrebu pawb. Gan hynny, gallwn sicrhau bod safbwyntiau pawb yn cael eu clywed a'u bod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.

Datblygiad cyffrous ar gyfer Tribiwnlysoedd yng Nghymru sydd ar y gweill yw bod disgwyl i Fil Diwygio'r Tribiwnlysoedd gael ei gyflwyno i'r Senedd yn y dyfodol agos, sy'n cynnig diwygio'r ffordd y caiff Tribiwnlysoedd eu strwythuro. Mae TAC yn edrych ymlaen at wynebu'r heriau newydd a ddaw yn sgil y Bil hwnnw, gan gynnwys cyflwyno apeliadau sy'n ymwneud â threfniadau derbyn i ysgolion a gwahardd plant o'r ysgol.

Mae TAC yn parhau i gynnal Fforymau rheolaidd i Ddefnyddwyr wyneb yn wyneb ac ar-lein – ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn natblygiad TAC gymryd rhan ynddynt. Gallwch gysylltu â gweinyddiaeth TAC i ychwanegu eich cyfeiriad e-bost at y rhestr ddosbarthu i gael gwybod am y cyfarfodydd nesaf. Byddwn hefyd yn diweddaru gwefan TAC.

Mae unrhyw gyfnod o newid bob amser yn ansefydlog. Mae'n hanfodol bod y gyfraith ADY newydd yn cael ei chyflwyno mor esmwyth â phosibl i blant a phobl ifanc yng Nghymru, i sicrhau nad ydynt dan anfantais. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr ALl sicrhau eu bod yn gwybod am y gyfraith hon, yn ei deall hi, ac yn gallu gweithredu yn unol â hi. Rhaid cofio y bydd dyletswyddau o dan Gyfraith ADY yn meddu ar fwy o ddylanwad na pholisïau'r ALl bob amser. Felly, rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau yn yr ALl fod yn un dryloyw ac atebol. Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys weithredu'r gyfraith hon wrth wneud penderfyniadau, a dim ond wrth wneud penderfyniadau.

Gyda phob dymuniad da.

Y Barnwr Jane McConnell
Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru

Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon, ein:

- Y sail ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)
- Swyddogaeth TAC
- Rheoliadau TAC
- Proses TAC
- Aelodau TAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAC
- Defnyddio TAC

Y sail ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Ailenwyd TAAAC yn Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC) gan Adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae TAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol (ALlau) ac ysgolion, ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAC a'i gymorth gweinyddol.

Swyddogaeth TAC

Mae TAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhieni, plant a phobl ifanc sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r awdurdod lleol (ALl) neu'r Sefydliad Addysg Bellach wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn neu berson ifanc. Mae TAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

Rheoliadau TAC

Mae TAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan TAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAC yn deall yn glir y camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Proses TAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAC lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon i TAC.

Mewn gwrandawiad TAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd, neu o bell drwy Wrandawiad Rhithiol.

Aelodau TAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Chadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel Addysg.

Llywydd	Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Dirprwy Lywydd	Mae'r Dirprwy Lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, dros dro neu'n barhaol.
Barnwr	Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan farnwr tribiwnlys, ac mae'n rhaid bod gan y barnwr gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen.
Aelodau Arbenigol o'r Panel	Mae Aelodau Arbenigol o'r Panel yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Ysgrifenyddiaeth	Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos, ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Penodwyd Llywydd newydd i'r Tribiwnlys a dau farnwr tribiwnlys yn ystod y cyfnod adrodd.

Hyfforddiant

Cynhaliodd y tribiwnlys sesiynau hyfforddi trwy fideo gynhadledd ar gyfer ei aelodau yn ystod mis Ionawr 2023.

Cysylltu â TAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAC:

Cyfeiriad TAC:	Tribiwnlys Addysg Cymru Blwch Post 100 Llandrindod LD1 9BW
Llinell Gymorth TAC:	03000 259800
E-bost TAC:	tribiwnlysaddysg@llyw.cymru

Defnyddio TAC

Mae TAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os bydd angen dehonglwr iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Os oes gennych chi neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad unrhyw ofynion eraill o ran hygyrchedd neu fynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr/cyfieithwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y rheini sy'n mynd i'r gwrandawiad, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg yn ystod blwyddyn academaidd o fis Medi i fis Awst. Mae'r Tribiwnlys yn casglu'r data canlynol ar gyfer ystadegau:

Apeliadau ADY ac AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Siart 2.1	Tud 8
Y mathau o apeliadau ADY a ddaeth i law yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.2	Tud 9
Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.3	Tud 10
Y mathau o apeliadau AAA a ddaeth i law yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.4	Tud 11
Apeliadau AAA yn ôl Awdurdod Lleol 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.5	Tud 12
Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn ystod 2022-2023	Tabl 2.6	Tud 13
Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn ystod 2022-2023	Tabl 2.7	Tud 14
Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn ystod 2022-2023	Tabl 2.8	Tud 15
Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn ystod 2021-2022	Tabl 2.9	Tud 16
Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Siart 2.10	Tud 17
Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2022-2023	Tabl 2.11	Tud 18
Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2022-2023	Tabl 2.12	Tud 19
Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2022-2023	Tabl 2.13	Tud 20
Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2022-2023	Tabl 2.14	Tud 21
Apeliadau yn ôl rhywedd yn ystod 2022-23	Siart 2.15	Tud 22
Apeliadau ADY yn ôl canlyniad yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.16	Tud 22

Apeliadau AAA yn ôl canlyniad yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.17	Tud 23
Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)	Tabl 2.18	Tud 23
Apeliadau AAA yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)	Tabl 2.19	Tud 24
Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)	Tabl 2.20	Tud 25
Apeliadau AAA yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)	Tabl 2.21	Tud 26
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw, gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen yn 2022-23, o'u cymharu â 2021-2022	Siart 2.22	Tud 27
Y mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22	Tabl 2.23	Tud 27
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22	Siart 2.24	Tud 28

Siart 2.1 Apeliadau ADY ac AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2022-23, o'u cymharu â 2021-22 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)



Tabl 2.2 Y mathau o apeliadau ADY a ddaeth i law yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22

Math o apêl	2022-2023	2021-2022
Angen, Darpariaeth ac Ysgol	5	1
A oes gan y plentyn ADY	16	2
ALl yn cymryd drosodd o ran cynhaliaeth	3	1
Angen, Darpariaeth a'r ALl yn cymryd drosodd o ran cynhaliaeth	0	1
Gwrthod penderfynu	0	1
Yr ysgol a enwir yn y CDU	9	0
Y ddarpariaeth yn y CDU	4	0
Darpariaeth ac Ysgol	2	0
Rhoi'r Gorau i Gynnal	1	0
Heb gadarnhau eto	1	0
Cyfanswm	**41**	**6**

Tabl 2.3 Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol yn 2022-23, o'u cymharu â 2021-22

	2022-2023		2021-2022	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau %	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau %
Blaenau Gwent	2	5%	0	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	1	2%	0	0%
Caerffili	3	7%	0	0%
Caerdydd	5	12%	0	0%
Sir Gaerfyrddin	1	2%	0	0%
Ceredigion	0	0%	1	17%
Conwy	2	5%	0	0%
Sir Ddinbych	4	10%	0	0%
Sir y Fflint	2	5%	1	17%
Gwynedd	2	5%	1	17%
Merthyr Tudful	0	0%	0	0%
Sir Fynwy	0	0%	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	1	2%	0	0%
Casnewydd	2	5%	0	0%
Sir Benfro	0	0%	0	0%
Powys	4	10%	0	0%
Rhondda Cynon Taf	3	7%	2	32%
Abertawe	3	7%	0	0%
Torfaen	0	0%	0	0%
Bro Morgannwg	3	7%	1	17%
Wrecsam	2	5%	0	0%
Ynys Môn	1	2%	0	0%
Cyfanswm	**41**	**98%**	**6**	**100%**

Tabl 2.4 Y mathau o apeliadau AAA a ddaeth i law yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22

Math o apêl	2022-2023	2021-2022
Gwrthod Asesu	1	24
Gwrthod rhoi Datganiad	1	13
Gwrthod Ailasesu	2	2
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	1	10
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	10	25
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	2	4
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	1	3
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	3	8
Rhoi'r Gorau i Gynnal	3	1
Heb ei gofnodi	1	0
Cyfanswm	**25**	**90**

Tabl 2.5 Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23, o'u cymharu â 2021-22

	2022-2023		2021-2022	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau %	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau %
Blaenau Gwent	0	0%	0	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0%	1	1%
Caerffili	0	0%	0	0%
Caerdydd	3	12%	12	13%
Sir Gaerfyrddin	2	8%	4	4%
Ceredigion	0	0%	2	2%
Conwy	0	0%	6	7%
Sir Ddinbych	1	4%	2	2%
Sir y Fflint	0	0%	0	0%
Gwynedd	0	0%	1	1%
Merthyr Tudful	0	0%	2	2%
Sir Fynwy	2	8%	1	1%
Castell-nedd Port Talbot	0	0%	3	3%
Casnewydd	1	4%	18	20%
Sir Benfro	1	4%	7	8%
Powys	3	12%	8	9%
Rhondda Cynon Taf	1	4%	5	6%
Abertawe	7	28%	3	3%
Torfaen	0	0%	1	1%
Bro Morgannwg	4	16%	10	11%
Wrecsam	0	0%	2	2%
Ynys Môn	0	0%	2	2%
Cyfanswm	**25**	**100%**	**90**	**98%**

Tabl 2.6 Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2022-2023

	A oes gan y plentyn ADY	ALI i Gynnal	Rhoi'r Gorau i Gynnal	Heb gadarnhau eto
Blaenau Gwent	1	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0	0	0
Caerffili	1	0	0	0
Caerdydd	2	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	1	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0
Conwy	1	1	0	0
Sir Ddinbych	3	0	0	1
Sir y Fflint	1	0	0	0
Gwynedd	0	0	1	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0
Casnewydd	1	0	0	0
Sir Benfro	0	0	0	0
Powys	1	2	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0
Abertawe	1	0	0	0
Torfaen	0	0	0	0
Bro Morgannwg	1	0	0	0
Wrecsam	1	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0
Cyfanswm	**16**	**3**	**1**	**1**

Tabl 2.7 Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2022-2023

	Angen, Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU	Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU	Y ddarpariaeth yn y CDU	Yr ysgol a enwir yn y CDU
Blaenau Gwent	0	0	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	0
Caerffili	0	0	1	1
Caerdydd	1	1	0	1
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0
Conwy	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	1	0
Gwynedd	0	0	0	1
Merthyr Tudful	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	1
Casnewydd	0	0	0	1
Sir Benfro	0	0	0	0
Powys	1	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	1	0	2
Abertawe	0	0	2	0
Torfaen	0	0	0	0
Bro Morgannwg	2	0	0	0
Wrecsam	1	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	1
Cyfanswm	**5**	**2**	**4**	**9**

Tabl 2.8 Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2022-2023

	Gwrthod Asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Rhoi'r Gorau i Gynnal	Heb gadarnhau eto
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	0	0
Caerffili	0	0	0	0	0
Caerdydd	0	0	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	1	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0	0
Conwy	0	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0	0
Gwynedd	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	1
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0
Casnewydd	0	0	1	0	0
Sir Benfro	0	0	0	0	0
Powys	0	0	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0	0
Abertawe	1	0	0	2	0
Torfaen	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	0	0	1	1	0
Wrecsam	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**1**	**1**	**2**	**3**	**1**

Tabl 2.9 Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2021-2022

	Cynnwys Rhannau 2 a 3	Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Rhan 3	Cynnwys Rhannau 3 a 4	Cynnwys Rhan 4
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0	0	0
Caerffili	0	0	0	0	0
Caerdydd	0	1	1	0	1
Sir Gaerfyrddin	0	1	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0	0
Conwy	0	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	1	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0	0
Gwynedd	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	1	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0
Casnewydd	0	0	0	0	0
Sir Benfro	0	1	0	0	0
Powys	0	1	0	0	2
Rhondda Cynon Taf	1	0	0	0	0
Abertawe	0	2	1	1	0
Torfaen	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	0	2	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**1**	**10**	**2**	**1**	**3**

Siart 2.10 Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22



Tabl 2.11 Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl 2022-2023

	Meithrin	Pontio Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd[1]	Uwchradd	Pontio Uwchradd
Angen, Darpariaeth ac Ysgol	0	0	4	1	0	0
A oes gan y plentyn ADY	2	1	12	1	0	0
ALl yn cymryd drosodd o ran cynhaliaeth	0	0	2	0	1	0
Yr ysgol a enwir yn y CDU	1	0	4	2	2	0
Y ddarpariaeth yn y CDU	1	1	2	0	0	0
Darpariaeth ac Ysgol	0	0	2	0	0	0
Rhoi'r Gorau i Gynnal	0	0	0	0	1	0
Heb gadarnhau eto	0	0	0	0	1	0
Cyfanswm	**4**	**2**	**26**	**4**	**5**	**0**

1 Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd.

Tabl 2.12 Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl 2022-2023

	Pontio Meithrin	Cynradd	Uwchradd
Gwrthod Asesu	1	0	0
Gwrthod rhoi Datganiad	0	1	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	1	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	2	8
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	1	1
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	1	0
Heb gadarnhau eto	0	0	1
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	2	1
Gwrthod Ailasesu	0	2	0
Rhoi'r Gorau i Gynnal	0	0	3
Cyfanswm	**1**	**10**	**14**

Tabl 2.13 Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol 2022-202

	Nifer yr apeliadau				
	Meithrinfa	Pontio Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd	Uwchradd
Blaenau Gwent	0	0	2	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	1	0	0
Caerffili	2	0	0	0	1
Caerdydd	0	0	5	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	1	0
Ceredigion	0	0	0	0	0
Conwy	0	0	1	0	1
Sir Ddinbych	0	1	2	0	1
Sir y Fflint	0	0	2	0	0
Gwynedd	0	0	1	0	1
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	1	0	0	0	0
Casnewydd	0	0	1	1	0
Sir Benfro	0	0	0	0	0
Powys	0	0	4	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	1	1	1
Abertawe	1	1	1	0	0
Torfaen	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	0	0	3	0	0
Wrecsam	0	0	1	1	0
Ynys Môn	0	0	1	0	0
Cyfanswm	**4**	**2**	**26**	**4**	**5**

Tabl 2.14 Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol 2022-2023

	Pontio Meithrin	Cynradd	Uwchradd
Blaenau Gwent	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	0	0
Caerffili	0	0	0
Caerdydd	0	1	2
Sir Gaerfyrddin	0	2	0
Ceredigion	0	0	0
Conwy	0	0	0
Sir Ddinbych	0	0	1
Sir y Fflint	0	0	0
Gwynedd	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	2
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0
Casnewydd	0	1	0
Sir Benfro	0	0	1
Powys	0	1	2
Rhondda Cynon Taf	0	1	0
Abertawe	1	3	3
Torfaen	0	0	0
Bro Morgannwg	0	1	3
Wrecsam	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0
Cyfanswm	**1**	**10**	**14**

Siart 2.15 Apeliadau yn ôl rhywedd 2022-23



Tabl 2.16 Apeliadau ADY yn ôl canlyniad 2022-23 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22

	2022-2023		2021-2022	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Wedi'u caniatáu[2]	1	2%	0	0%
Wedi'u tynnu'n ôl[3]	12	26%	0	0%
Wedi'u cadarnhau'n llawn	4	9%	0	0%
Wedi'u cadarnhau'n rhannol	2	4%	0	0%
Wedi'u gwrthod/dileu	5	11%	0	0%
Ar y gweill[4]	22	48%	6	100%
Cyfanswm	**46**	**100%**	**6**	**100%**

2 Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach, ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn y mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

3 Wedi'u tynnu'n ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei dynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

4 Ar y gweill – mae achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.17 Apeliadau AAA yn ôl canlyniad 2022-23 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22

	2022-2023		2021-2022	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Wedi'u caniatáu[5]	2	4%	39	28%
Wedi'u tynnu'n ôl[6]	15	31%	43	31%
Wedi'u cadarnhau'n llawn	1	2%	5	4%
Wedi'u cadarnhau'n rhannol	1	2%	16	12%
Wedi'u gwrthod/dileu	15	31%	12	9%
Ar y gweill[7]	14	30%	22	16%
Cyfanswm	**48**	**100%**	**137**	**100%**

Tabl 2.18 Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2022-23 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u gwrthod/ dileu	Ar y gweill
Angen, Darpariaeth ac Ysgol	0	1	0	2	0	3
A oes gan y plentyn ADY	0	6	1	0	1	10
ALI yn cymryd drosodd o ran cynhaliaeth	0	2	2	0	0	1
Yr ysgol a enwir yn y CDU	0	1	0	0	1	7
Y ddarpariaeth yn y CDU	0	1	0	0	2	1
Darpariaeth ac Ysgol	0	1	1	0	0	0
Rhoi'r Gorau i Gynnal	1	0	0	0	0	0
Heb gadarnhau eto	0	0	0	0	1	0
Angen, Darpariaeth ac Ysgol	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**1**	**12**	**4**	**2**	**5**	**22**

5 Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALI yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn y mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

6 Wedi'u tynnu'n ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei thynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

7 Ar y gweill – mae achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.19 Apeliadau AAA yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2022-23
(gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u gwrthod/ dileu	Ar y gweill
Gwrthod Asesu	0	0	0	0	1	0
Gwrthod rhoi Datganiad	1	0	1	0	0	0
Gwrthod Ailasesu	0	2	0	0	0	1
Rhoi'r Gorau i Gynnal	0	1	0	0	3	0
Cynnwys Datganiad Rhan 2	0	0	0	0	1	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	1	0	1	1	2
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	1	6	0	0	4	8
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	1	0	0	2	1
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	0	0	0	0	1
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	4	0	0	2	1
Heb gadarnhau eto	0	0	0	0	1	0
Cyfanswm	**2**	**15**	**1**	**1**	**15**	**14**

Tabl 2.20 Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2022-23
(gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u gwrthod/ dileu	Ar y gweill
Blaenau Gwent	0	1	0	0	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0	0	0
Caerffili	0	1	0	0	1	1
Caerdydd	0	2	0	0	0	3
Sir Gaerfyrddin	0	1	0	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	1	0	0
Conwy	0	0	0	0	0	2
Sir Ddinbych	0	0	1	0	1	2
Sir y Fflint	0	3	0	0	0	0
Gwynedd	1	0	0	0	0	2
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	1	0	0	0	0
Casnewydd	0	0	0	0	1	1
Sir Benfro	0	0	0	0	0	0
Powys	0	0	2	0	0	2
Rhondda Cynon Taf	0	1	1	0	0	2
Abertawe	0	0	0	0	1	2
Torfaen	0	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	0	1	0	1	0	2
Wrecsam	0	0	0	0	1	1
Ynys Môn	0	0	0	0	0	1
Cyfanswm	**1**	**12**	**4**	**2**	**5**	**22**

Tabl 2.21 Apeliadau AAA yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2022-23
(gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u gwrthod/ dileu	Ar y gweill
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0	0	0
Caerffili	0	0	0	0	0	0
Caerdydd	0	0	0	0	2	3
Sir Gaerfyrddin	2	0	0	0	0	1
Ceredigion	0	0	0	0	0	0
Conwy	0	1	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	1	0	0	0	1
Sir y Fflint	0	0	0	0	0	0
Gwynedd	0	1	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	1	1
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Casnewydd	0	0	1	0	2	1
Sir Benfro	0	0	0	0	2	0
Powys	0	3	0	0	1	2
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	1	1	2
Abertawe	0	2	0	0	3	2
Torfaen	0	0	0	0	1	0
Bro Morgannwg	0	5	0	0	2	1
Wrecsam	0	1	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**2**	**15**	**1**	**1**	**15**	**14**

Siart 2.22 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) yn 2022-23, o'u cymharu â 2021-2022



Tabl 2.23 Y mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2022-23, o'u cymharu â 2021-22

Y math o hawliad	2022-2023		2021-2022	
Derbyn i'r ysgol	0	0%	0	0%
Addysg	15	71%	14	67%
Gwaharddiadau	5	24%	7	33%
Heb ei gofnodi	1	5%	0	0%

Siart 2.24 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22



Data Gwrandawiadau

Yn ystod 2022-2023 cynhaliodd y Tribiwnlys 74 gwrandawiad, ac o'r rheini, cynhaliwyd un gwrandawiad ar sail y papurau yn unig, cynhaliwyd 67 fel gwrandawiadau rhithiol, yn cynnwys 13 gwrandawiad rheoli achos a chynhaliwyd 6 gwrandawiad wyneb yn wyneb.

Math	Nifer y diwrnodau
Apêl	40
Hawliad	34
Papur	1 (Apêl)

Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud ceisiadau am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. A gall partïon hefyd ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn credu bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, cafodd cais am adolygiad o'r cyfnod adrodd blaenorol ei wrthod, a chafodd y penderfyniad ei ddiwygio drwy dystysgrif. Ystyriwyd dau gais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys o'r cyfnod adrodd blaenorol – adolygwyd un ohonynt gan gynnwys cyhoeddi'r penderfyniad newydd, a gwrthodwyd y cais arall.

Cafodd dau gais am ganiatâd i apelio a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn eu gwrthod gan y Tribiwnlys, a gwrthodwyd un ohonynt gan yr Uwch Dribiwnlys hefyd.

Roedd dau gais am ganiatâd i apelio ar y gweill o hyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fesur bodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd gennym sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar fodlonrwydd cwsmeriaid a ddarperir wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: Cofrestru 95% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais am yr Apêl/Hawliad.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 70% o achosion
Targed: Rhoi 75% o'r penderfyniadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 66% o achosion
Targed: Ymdrin â 75% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 20 wythnos.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 67% o achosion

Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys 2 gŵyn yn ystod y flwyddyn – cafodd un ohonynt ei chadarnhau ac ni chadarnhawyd y llall.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Rydym yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â chyfathrebu a'r gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys lefel y bodlonrwydd o ran lleoliad y gwrandawiad, y cymorth a roddir gan staff, a gwefan y tribiwnlys.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2022-2023

Mae'n bwysig bod TAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Sicrhau y gall plant a phobl ifanc ag AAA, ADY ac Anableddau fanteisio ar y system cyfiawnder yn effeithiol.
- Adolygu a chyflwyno Hyfforddiant Barnwrol sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu ar sail anabledd a chyfraith ADY.
- Darparu gwrandawiadau hyblyg yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â chais gan bartïon.
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Fforwm Defnyddwyr ledled Cymru ac ar-lein.
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefannau ac adnoddau Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
- Gweithredu newidiadau i weinyddiaeth y tribiwnlys a'i brosesau i gyflawni penderfyniadau teg, cyfiawn ac amserol.
- Paratoi i symud i unrhyw strwythur newydd a gyflwynwyd ar gyfer y Tribiwnlys yng Nghymru.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys	£186,214
Costau eraill y Tribiwnlys	£8,000
Cyfanswm	**£201,156**